

Cwrs Uwch - Uned Gyfoes

Radio Cymru

Geirfa

cynulleidfa(oedd) gweledigaeth(au) gwythien (gwythiennau) sylwebaeth	<i>audience(s)</i> <i>vision(s)</i> <i>vein(s)</i> <i>commentary</i>	arlwy creadur(iaid) diwylliant (diwylliannau) cyflwynydd (-wyr) gwestai (gwesteion) sylwebydd (-wyr) trywydd(au)	<i>provisions/what's on offer</i> <i>creature(s)</i> <i>culture(s)</i> <i>presenter(s)</i> <i>guest(s)</i> <i>commentator(s)</i> <i>trail(s)</i>
anadlu dadansoddi darlledu plethu	<i>to breathe</i> <i>to analyse</i> <i>to broadcast</i> <i>to plait/to twine</i>	amrywiol eang	<i>varied</i> <i>wide (range)</i>

Cyflwyniad

O 10-17 Hydref, bydd hi'n Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg ar BBC Radio Cymru am yr ail flwyddyn.

Storm eirfa – Radio Cymru

Mewn dau funud, meddyliwch am gymaint o eiriau ag y gallwch chi sy'n gysylltiedig â radio, neu Radio Cymru yn benodol (gallwch gynnwys enwau rhaglenni neu gyflwynwyr os ydych chi'n eu gwybod).

Wnaethoch chi feddwl am y geiriau canlynol? Dych chi'n gwybod eu hystyr nhw i gyd?

darlledu	stiwidio	rhaglen	cerddoriaeth
arlwy	newyddion	bwletin	sgwrsio
gwleidyddiaeth	drama	comedi	gwrandaewyr
adloniant	meicroffon	trafod	chwaraeon
cyflwynydd	gwestai	tywydd	traffig
sylwebaeth	sylwebydd	sylwebu	

Mae'r brawddegau isod yn cynnwys rhai o'r geiriau uchod, neu eiriau sy'n perthyn. Dewiswch y gair mwyaf addas i lenwi pob bwlch.

1. Rhaglenni _____ ysgafn sydd ar Radio Cymru yn y prynhawn, gyda chymysgedd o gerddoriaeth, sgwrsio a chystadlaethau.
2. Gallwch chi glywed y penawdau newyddion diweddaraf mewn _____ sy'n cael eu darlledu ar yr awr.
3. Ar ei raglen radio bob prynhawn, mae Ifan Evans yn annog y _____ i gysylltu a rhoi cynnig ar wahanol gystadlaethau.
4. Mae _____ Beti George yn cael dewis pedair cân i'w chwarae yn ystod eu sgwrs ar raglen *Beti a'i Phobl*.
5. Mae rhaglenni o bob math yn rhan o _____ dyddiol Radio Cymru – dylai fod rhywbeth yno i blesio pawb!
6. Mae rhaglenni Radio Cymru'n cael eu darlledu o bedair _____ - un ym Mangor, un yn Aberystwyth, un yng Nghaerfyrddin ac un yng Nghaerdydd. Mae rhai o'r darlledwyr yn darlledu o'u cartrefi nhw yn ystod Covid-19.
7. Mae rhaglen _____ yn cael ei darlledu ar Radio Cymru ar brynhawn Sadwrn. Mae'n cynnwys _____ ar gemau pêl-droed a rygbi ac yn rhoi'r sgoriau diweddaraf o'r meysydd chwarae.

Siaradwch

- Dych chi'n gwranddo ar Radio Cymru?
- Dych chi'n gwybod am y podlediad wythnosol i ddysgwyr *Pigion*?
- Dych chi'n gwranddo ar orsafoedd radio eraill?
- Pa raglenni radio dych chi'n eu hoffi/casáu?
- Ble byddwch chi'n gwranddo ar y radio?
- Dych chi wedi siarad ar y radio – ar Radio Cymru neu unrhyw orsaf radio arall?

Gwrando – sgwrs gyda Rhuanedd Richards

Rhuanedd Richards ydy Golygydd Radio Cymru, sef y swydd sy'n gyfrifol am holl waith yr orsaf.



- Wrth wrando ar y sgwrs am y tro cyntaf, gwrandewch am y geiriau canlynol gan roi ✓ pan fyddwch chi'n eu clywed (bydd rhai o'r geiriau i'w clywed fwy nag unwaith, felly gallwch roi mwy nag un ✓):

	✓
amrywiol	
cynulleidfa	
arlwy	
safon	
cyflwynwyr	
eang	

- Mae Rhuanedd Richards yn defnyddio'r ymadrodd **rhywbeth at ddant pawb**. Dych chi'n deall ystyr yr ymadrodd hwn? Rhowch y ffurfiau cywir ar yr ymadrodd **at ddant** yn y blychau isod:

at _____ i

at _____ di

at _____ e/o

at _____ hi

at _____ chi

- Wedi gwrando ar y darn eto, gweithiwch gyda phartner i gofio cymaint ag y gallwch chi o'r mathau o raglenni sydd ar Radio Cymru y mae Rhuanedd yn eu rhestru:

- Beth sy'n her ac yn gryfder i Radio Cymru, yn ôl Rhuanedd?

5. Pa ddewis mae Radio Cymru'n ei gynnig i wrandawyr yn y boreau nawr?

Siaradwch

- Sut byddech chi'n crynhoi gweledigaeth Rhuanedd Richards ar gyfer Radio Cymru?
- Pa fath o raglenni sydd at eich dant chi – ar y radio neu'r teledu?
- Ydych chi'n hoff o wrando ar gerddoriaeth?
- Fyddwch chi'n gwrandao ar gerddoriaeth ar y radio neu trwy ryw gyfrwng arall?
- Pa fath o gerddoriaeth sydd at eich dant chi?

Darllen - Radio Cymru

Darllenwch y darn isod a nodwch beth ydy arwyddocâd y dyddiadau a'r amserau yn y tabl hwn i Radio Cymru yn hanesyddol neu heddiw:



3 Ionawr 1977	
29 Ionawr 2018	
12-18 Hydref 2019	
5:30am	
Hanner nos	
6:45am	
6:30-8:30am dydd Llun-dydd Gwener	
5:00-6:00pm	

Radio Cymru ydy gorsaf radio Gymraeg BBC Cymru. Dechreuodd ddarlledu ar 3 Ionawr 1977. Ar y pryd, Radio Cymru oedd yr unig orsaf radio oedd yn darlledu ar FM yn unig. Dechreuodd y darllediad cyntaf am 6:45 y bore gyda llais Geraint Jones yn croesawu'r gwrandawyr cyn trosglwyddo i Gwyn Llywelyn ar gyfer bwletin newyddion ac ymlaen wedyn at Hywel Gwynfryn a'i raglen frechwast, *Helo Bobol*.

Dim ond yn y bore roedd rhaglenni ar Radio Cymru yn y dyddiau cynnar hynny, ond heddiw, mae'r orsaf yn darlledu yn Gymraeg o 5:30 y bore tan hanner nos. Mae modd gwrando ar Radio Cymru ar FM ar setiau radio traddodiadol, neu ar radio digidol, ar deledu Freeview, lloeren a chebl neu ar y we. Mae arlwy'r orsaf yn amrywiol iawn – mae'n cynnwys rhaglenni newyddion, adloniant ysgafn a chwaraeon, rhaglenni sy'n trafod materion cyfoes a ffordd o fyw a rhaglenni arbenigol mewn meysydd fel byd natur, amaethyddiaeth, y celfyddydau a chrefydd. Dyma batrwm arferol y rhaglenni, yn fras, yn ystod dyddiau'r wythnos – dydd Llun i ddydd Gwener:

05:30 – 07:00: Cerddoriaeth a chwmmniaeth yn y bore bach

07:00 – 09:00: Newyddion

09:30 – 13:00: Rhaglenni sgwrsio a cherddoriaeth

13:00 – 14:00: Rhaglenni nodwedd, materion cyfoes a newyddion

14:00 – 17:00: Cerddoriaeth, cystadlaethau ac adloniant ysgafn

17:00 – 18:00: Newyddion

18:00 – 19:00: Rhaglenni nodwedd/meysydd arbenigol

19:00 – 22:00: Cerddoriaeth gyfoes gyda chyflwynydd a phwyslais gwahanol bob nos

22:00 – Hanner nos: Cerddoriaeth a sgwrsio ar ddiwedd y dydd

Ar fore Llun 29 Ionawr 2018, lawnsiodd BBC Cymru ail orsaf radio, sef Radio Cymru 2. Mae Radio Cymru 2 yn cynnig dewis i bobl y mae'n well ganddyn nhw wrando ar gerddoriaeth ac adloniant ysgafn amser brecwast. Mae rhaglenni gwahanol ar Radio Cymru 2 rhwng 6:30 a 8:30 o ddydd Llun i ddydd Gwener, o 7:00 tan 9:00 ar fore Sadwrn, neu o 8:00 tan 10:00 ar ddydd Sul. Mae'r ail orsaf hon ar gael trwy radio digidol, teledu digidol, lloeren a chebl, neu ar y we.

10-17 Hydref fydd Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg BBC Radio Cymru. Mae'r tabl isod yn crynhoi rhai o'r pethau sy'n digwydd yn ystod yr wythnos:

Rhaglen	Cynnwys
Y Post Cyntaf (7am – 9am)	Bydd dysgwr yn olygydd gwadd
Rhaglen Aled Hughes (9am – 11am)	Eitemau gan Kai Sarenco
Bore Cothi (11am – 1pm)	Sgwrs gyda dysgwr bob bore a darlleniad o lyfr Nigel Owens 'C'mon Reff' – Cyfres Amdani
Ifan Evans (2pm – 5pm)	Cyhoeddi hoff ganeuon dysgwyr Cymraeg a dysgwyr yn cyflwyno am hanner awr bob dydd
Byd Huw Stephens (nos Iau, 15 Hydref)	Pixy Jones o'r band El Goodo yn dewis caneuon
Bwletin newyddion	Bwletin newyddion am 8pm
Rhaglen Geraint Lloyd	
Beti a'i Phobol	Sgwrs gyda Aran Jones, Say Something in Welsh

Hefyd, bydd rhaglen ddogfen arbennig o'r enw Dyddiadur Dysgwyr yn y Byd.

Ymarfer

Dewch o hyd i 5 treigladd yn y darn darllen uchod ac esboniwch pam mae'r treigladdau hyn yn digwydd.

Gwrando – Beti George ac Aled Hughes

Beti George ydy cyflwynydd y rhaglen *Beti a'i Phobl*. Mae gwestai gwahanol ar y rhaglen honno bob wythnos – rhywun enwog neu rywun sydd wedi cyflawni pethau diddorol neu anarferol yn eu bywyd. Mae'r gwrandawyr yn cael dod i nabod y gwestai'n well wrth i Beti eu holi a chwarae eu dewis o gerddoriaeth. Mae'r cyfweiliadau hyn ar gael ar BBC Sounds -

<https://www.bbc.co.uk/sounds/search?q=Beti%20a%27i%20Phobl&suggid=urn%3Abbc%3Aprogrames%3Ab007rkcw>.

Mae BBC Radio Cymru wedi recordio sgwrs fer rhwng Beti ac un arall o gyflwynwyr Radio Cymru, Aled Hughes yn arbennig ar gyfer yr uned hon. Mae Aled Hughes yn cyflwyno rhaglen bob bore rhwng 9:30 a 10:00.

1. Cyn gwrando ar ran gyntaf y sgwrs, gweithiwch gyda phartner i gysylltu'r geiriau a'r ymadroddion isod gyda'r diffiniadau cywir:

cymryd yn ganiataol

rhyfeddu

pynciau trafod

pwyso a mesur

plethu

dadansoddi

mynd ar drywydd

fy nhanio i

dilyn stori sydd y tu ôl i rywbeth

edrych yn fanwl ar y gwahanol elfennau sy'n rhan o rywbeth

peidio meddwl am rywbeth, neu beidio ei werthfawrogi

cael syndod mawr

pethau y mae pobl eisiau siarad amdany'n nhw

ystyried eich barn am rywbeth yn ofalus

clymu gwahanol bethau at ei gilydd mewn patrwm

fy nghyffroi i neu ddeffro diddordeb ynof fi

2. Creadur busneslyd

Yn ystod y sgwrs, mae Aled yn disgrifio'i hun fel "creadur busneslyd". Pa ansoddair fydddech chi'n ei ddefnyddio gyda'r gair creadur/creatures i ddisgrifio'ch hun? Dyma rai posibiladau:

- tawel/swnlllyd
- pwylllog/byrbwyll
- nerfus/hyderus
- sarrug/cyfeillgar
- trefnus/anrhefnus
- taclus/anniben/blêr

3. Wrth wrando ar ran gyntaf y sgwrs, gwrandewch am y geirau a'r ymadroddion a restrwyd yn 1. uchod.



4. Sut mae Aled yn dweud "dw i ddim yn meddwl..."

Sut mae pobl yn dweud hynny yn eich ardal chi? Defnyddiwch yr ymadrodd hwnnw o flaen y canlynol (cofiwch fod angen defnyddio cymal 'bod'):

Mae Beti George yn dod o'r Gogledd.

Mae gan Aled wallt hir/Mae gwallt hir gydag Aled.

Dw i wedi clywed rhaglen Aled Hughes.

Mae Aled yn gweithio ar ei ben ei hun.

5. Yn ail ran y sgwrs, mae Aled yn sôn am adael i sgysiau "anadlu" ar ei raglen. Ar ôl gwrandao ar yr ail ran, trafodwch beth mae'n ei feddwl wrth ddweud hyn.

6. Cwblhewch yr ymadroddion canlynol i ddweud beth mae Aled yn ceisio'i wneud wrth gyflwyno'r rhaglen:

peidio bod yn _____

mae'n bwysicach _____ yn hytrach na _____

mae hi'n iawn dweud _____

7. Yn y trydydd clip, mae Beti'n holi Aled am ei ardal enedigol yn Llanbedrog, Pen Llŷn ac mae Aled yn esbonio bod dylanwad yr ardal "yn ei wythiennau". Ym mha dri sefydliad yn yr ardal roedd y Gymraeg "yn llifo'n naturiol" wrth i Aled gael ei fagu yno?

8. Sut roedd gweithio yn y dafarn yn debyg i weithio ar y radio, yn ôl Aled?

9. Pa raglenni teledu mae Aled yn eu henwi wrth siarad am "ddiwylliant Eingl-Americanaidd"?

10. Beth yw barn Aled am drafod pethau fel hyn ar ei raglen?

Gwaith cartref – gwrando ar Radio Cymru



Ydych chi'n gwybod ar ba donfedd mae Radio Cymru yn darlledu yn eich ardal chi? Neu ydych chi eisiau gwrando ar radio digidol neu'r teledu neu dros y we? Holwch eich tiwtor os oes angen help arnoch chi i ddod o hyd i'r orsaf.

Gwrandewch ar o leiaf un o raglenni Radio Cymru neu Radio Cymru 2 cyn eich gwrs nesaf.

Siarad (yn y wers nesaf)

- Trafodwch y rhaglen(ni) y buoch chi'n gwrando arni/arnyn nhw.
- Wnaethoch chi fwynhau'r gwrando?
- Fyddwch chi'n gwrando eto ar yr un rhaglen, neu'n rhoi cynnig ar rywbeth gwahanol ar Radio Cymru?